

Ein Llais – Our Voice

Mae gennym ni sawl enw:
We have several names:

‘Criw’r Gromlech’;
‘The Ponty Panthers’;
‘Elyrch Llansamlet’;
‘The Merthyr Miners’,
‘Llewod Llannon’;
‘The Wild Waterfalls’;
‘Dawnswyr Afon Dyfi’;
‘The Gwent Giants’;
‘Mellt Maenclochog’.
We are the ‘Cardiff Mixing Pot’
a ‘Brain Bendigedig Betws Gwerfyl Goch’.

Ac ni ydi’r coed sy’n tyfu ers canrifoedd;
We are the musty smell of rooms,
of damp wood and rotting leaves.
Ni yw cri’r gwyfanod a chyffro’r Wal Goch;
Ni yw blas y llus a’r malws melyn.
We are ‘un teulu mawr’, we support each other
and make each other feel safe.
Ac ni yw sŵn y tractors yn suo fel gwenyn yn y caeau gwaith;
Wildlife, pondlife;
Ni yw’r adeiladau newydd a’r pocedi gweigion;
mossy slimy rocks and information boards;
children screaming in the park.
Ni yw’r rhai sy’n siarad Wrddw, Punjabi, Pwyleg a Chymraeg;
ni yw’r rhai sy’n hapus ac yn drist.
We are made of iron, of meandering rivers
and flowing streams.
Ac ni yw waliau Senedd Glyndŵr,
a’n seiliau sy’n gryfach nag unrhyw gastell;
foxes, badgers, owls, woodpeckers;
ni yw’r gwair hir, sy’n westy blodeuog
ac yn loches i greaduriaid bach.
We are the tasty, scrumptious crumbly Welsh cakes.
Ac ni yw’r Gwmrâg sy’n ein gludo at ein gilydd fel mêl gwyllt;
we stick up for the underdog
because who else will?

Ni yw arogl y garlleg gwyllt a llyfnder y garreg las,
the salty seawater of the barrage,
we are the wind billowing through the trees;
y cychod sy’n ein cario i’r ynysoedd nesaf.
We are fast readers,
weird singers, friendly dancers,
ni yw’r cerrig mân a’r creigiau moel;
sassy geniuses and funny runners.
Ni yw nodau’r anthem,
And we are the future.
Ni yw mynyddoedd y dyfodol.
And we pride ourselves on kindness.

Ac rydym ni’n gwybod
fod pawb yn haeddu cartref;
And we know what it is to feel ‘hiraeth’;
ac rydan ni’n gwybod fod pobl yng Nghymru yn llwgu,
fod yr hinsawdd yn newid,
fod ’na ryfeloedd yn y byd.
We know everything is connected.
a bod gwlân yn seimllyd a chynnes,
ac yn arogl fel chwys a gwaith caled a chymdogaeth.
We have mixed emotions,
fod capeli yn arogl fel hen lyfrau, a polish ar y cadeiriau,
a llwch ac emynau, a dillad neiniau a fferins a gweddïau.
That its mostly sheep, sheep and even more sheep.
a sut mae cynnal fflam
Cymreictod drwy’r gaeafau hir.
When I speak Welsh, I can taste my tongue.
Fe wyddom beth yw ennill a cholli gyda’r timau pêl-droed a rygbi;
we like games.
Bod hiliaeth yn staen ar y galon
a rhyfel yn storom ar ffurfafen yr enaid;
Our mountains stand ragged and rocky;
bod Cymreictod yn brofiad sur-felys fel blas mwyar duon ar dafod;
they shine emerald green,
ac mai bara brith yw bara’r nefoedd,
We have many mother tongues;
am ei fod o’n arogl i’n dywyll ac yn dyner fel tŷ Mam-gu;
Arabic, Tamil, Afrikaans,

Welsh, English, Turkish, Telegu, Somali,
a bod ynom y ddawn i fod yn genedl.
Croeso, vankkam, asalm alakum.

A’r cyfan rydym ni eisiau
And all we want
A’r cyfan rydym yn mynnu
And all we demand
Yw bod yn ffrind i wledydd eraill.
to keep the air clean so we can breathe.
Rydan ni eisiau ein Cymru ni i fod yn
amrywiol, ardderchog ac arbennig!
A trampoline in the chimney so we can reach the clouds.
Llai o sbwriel yn tagu’r tyfiant,
Every child to have a home.
A llai o dywod rhwng ein brechdanau,
A bod neb yn trashio parciau plant yfory.
We want the security to explore our ambitions.
Ac rydym ni’n haeddu traethau glân fel pin mewn papur
a môr sy’n llawn pysgod, nid plastig.
For our girls to have the same opportunities as our boys.
Ac rydym ni’n mynnu
yr hawl i gael byw yn ein cymunedau.
robot butlers and The Welsh flag on the moon!
Ac rydym yn mynnu gwyrddni, ag awyr iach
ac orogl dom!
We are demanding a better future
for ourselves and our families.
Rydym ni moyn cymryd pleser yn ein gwaith,
We want everyone to play their part,
yn gwmws fel y gwna Mam-gu
wrth iddi weithio tarten rhiwbob.
Our unique voices were made to be heard.
... a ’falle tamed bach llai o law!

We want to set an example for the rest of the world.

Plant Cymru / The Children of Wales

with help from Anni Llŷn, Taylor Edmonds, Gruffudd Owen and Eloise Williams